

RHAGLEN WAITH Y PWYLLGORAU CRAFFU **TROSOLWG A CHRAFFU**

'Dwyn yr Adain Weithredol a'r Cyngor i gyfrif mewn perthynas â phob un o'r tair blaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor'

Mae pob un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor yn gyfrifol am bennu ei raglen waith ei hun a chytuno arni, drwy nodi rhestr o themâu a phynciau sy'n berthnasol i gylch gorchwyl pob Pwyllgor Craffu. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Craffu, caiff rhaglen ymarferol a realistig wedi'i hamserlennu ei datblygu.

Dylai blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu roi rhesymeg eglur ynglŷn â pham y mae materion penodol wedi'u dewis. Dylen nhw ganolbwyntio ar ganlyniadau a sicrhau bod y dull craffu sydd wedi'i ddewis yn gweddu i'r pwnc a'r canlyniadau y gobeithir amdanyn nhw. Dylen nhw hefyd alinio rhaglenni craffu gyda threfniadau rheoli cyflawniad, hunan asesu a gwelliant y Cyngor.

Drwy gydol y flwyddyn, mae nifer o ffyrdd y mae modd cynnwys materion ychwanegol yn y Rhaglen Waith Craffu, ac mae modd i syniadau i'w cynnwys ddod o nifer o ffynonellau, fel:-

- Cynghorwyr unigol;
- Gwybodaeth monitro cyflawniad neu gyllideb;
- Adroddiadau arolygu;
- Atgyfeiriadau gan y Cyngor (fel Rhybuddion o Gynnig), y Cabinet/y Pwyllgor Archwilio neu bwyllgorau craffu eraill;
- Defnyddwyr y Gwasanaeth;
- Monitro gweithrediad argymhellion sydd wedi'u gwneud gan y pwyllgor yn flaenorol; a
- Trigolion lleol.

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cabinet lunio blaenraglenni gwaith, ac mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cadw golwg ar eitemau neu bynciau sydd ar ddod a fydd o bosibl yn galluogi'r pwyllgorau craffu i chwarae rhan yng ngwaith datblygu polisi ar ran y Cyngor, cyn iddo gael ei ystyried yn ffurfiol gan y Cabinet. Mae'n bwysig cofio bod elfen o hyblygrwydd i bob rhaglen waith unigol sy'n rhoi'r gallu i Bwyllgorau graffu ar faterion newydd/brys sy'n codi yn ystod y flwyddyn.

Dyddiad/Amser	Eitem gyffredinol	Swyddog	Aelod o'r Cabinet	Craffu yn canolbwyntio ar...
17 Gorffennaf 2023	<p>Rhaglen Waith Ddrafft y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2023-24</p> <p>Adroddiad Cyflawniad ac Adnoddau'r Cyngor (Ch4)</p> <p>Ymgynghori: Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (Rheoli Cŵn)</p> <p>Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol (CRhAC)</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</p> <p>Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol</p> <p>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</p> <p>Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor</p>		<p>Rhoi cyfle i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gytuno ar ei raglen waith ei hun ac ar raglen waith y Cabinet ar gyfer blwyddyn 23-24 y Cyngor</p> <p>Rhoi trosolwg i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu o gyflawniad y Cyngor, o safbwynt ariannol a gweithredol.</p> <p>Rhoi cyfle i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad</p> <p>Derbyn diweddariad ar y CRhAC</p>
27 Medi 2023	<p>Ymgysylltu â'r Cabinet ddwywaith y flwyddyn</p> <p>Adroddiad Cyflawniad ac Adnoddau'r Cyngor (Ch1)</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</p> <p>Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol</p>		<p>Craffu ar unrhyw faterion sy'n codi gyda deiliad y portffolio sy'n gyfrifol am sicrhau bod y mecanweithiau ar waith i graffu'n effeithiol ar yr Adain Weithredol.</p> <p>Rhoi trosolwg i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu o gyflawniad y Cyngor, o safbwynt ariannol a gweithredol.</p>

	<p>Rhaglen Waith Addysg a Chynhwysiant</p> <p>Myfyrwyr Mudol Rhyngwladol yn RhCT</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</p> <p>Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned</p>		
20 Tachwedd 2023	Adroddiad Cyflawniad ac Adnoddau'r Cyngor (Ch2)	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol		Rhoi trosolwg i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu o gyflawniad y Cyngor, o safbwynt ariannol a gweithredol.
13 Rhagfyr 2023	<p>Ymgynghori ar y Gyllideb (Cam 1)</p> <p>Tomenni Glo</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</p> <p>Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Rheng Flaen</p>		<p>Gweithredu'n ymgynghoreion ffurfiol ar gyfer proses pennu Cyllideb y Cyngor</p> <p>Trosolwg o adolygiad y Cyngor o domenni glo ledled RhCT</p>
31 Ionawr 2023	<p>Ymgynghori ar y Gyllideb (Cam 2)</p> <p>Adroddiad Cyflawniad ac Adnoddau'r Cyngor (Ch3)</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</p> <p>Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol</p>		<p>Gweithredu'n ymgynghoreion ffurfiol ar gyfer proses pennu Cyllideb y Cyngor</p> <p>Rhoi trosolwg i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu o gyflawniad y Cyngor, o safbwynt ariannol a gweithredol</p>

	Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol	Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol		Derbyn yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol i rag-graffu arno cyn i'r Cabinet ei drafod
	Cynllun Cydraddoldeb Strategol	Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol		Derbyn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i rag-graffu arno cyn i'r Cabinet ei drafod
	Cynllun Corfforaethol y Cyngor	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol		Derbyn y Cynllun Corfforaethol drafft i rag-graffu arno
20 Mawrth 2023	Adroddiad Cyflawniad ac Adnoddau'r Cyngor (Ch4)	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol		Rhoi trosolwg i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu o gyflawniad y Cyngor, o safbwynt ariannol a gweithredol. Craffu ar unrhyw faterion sy'n codi gyda deiliad y portffolio sy'n gyfrifol am sicrhau bod y mecanweithiau priodol ar waith i graffu'n effeithiol ar yr Adain Weithredol.
	Ymgysylltu â'r Cabinet ddwywaith y flwyddyn	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu		

I'w trefnu maes o law:

Gwasanaethau'r Gymraeg mewn Addysg – Gweithio mewn Partneriaeth

Y pwysau y mae Cyfadran y Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu hwynebu

Rheoli Achosion o Absenoldeb a Salwch

Datblygu'r Cynllun Corfforaethol

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP)

Ymgynghoriad ar Faint y Cyngor

Adroddiadau Cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru

Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Cyd-bwyllgor Corfforaethol

Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Digideiddio

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Gweithio ar y cyd â phartneriaid